# Y Diwygiad Distaw a'r Cyfleoedd Cenhadol

## gan Aled Davies

Cyhoeddwyd adroddiad cyffrous gan Gymdeithas y Beibl yn ddiweddar, yn rhannu'r newyddion da bod yna gynnydd wedi bod yn y nifer sy'n mynychu oedfaon yn rheolaidd yng Nghymru a Lloegr dros y degawd diwethaf. Mae hyn yn dilyn arolwg a gomisiynwyd ganddynt, wedi ei drefnu gan YouGov, a ddaeth i'r canlyniad bod y nifer sy'n mynychu oedfa o leiaf unwaith y mis wedi cynyddu 50% dros y cyfnod o 10 mlynedd ers yr arolwg diwethaf. Teitl yr adroddiad yw 'The Quiet Revival', ac mae ar gael i'w lawrlwytho o wefan Cymdeithas y Beibl.




Byddwn yn meddwl am Gymru yn aml fel 'gwlad y diwygiadau', gyda'r rheini fel arfer yn cael eu cyfrif yn ddigwyddiadau cynhyrfus, byrlymus a dramatig. Erbyn hyn daeth cyfnod y pregethu tân a brwmstan mewn cyfarfodydd cenhadol i ben fwy neu lai, gyda mwyafrif y boblogaeth yn amharod i wrando ar bregeth 40 munud. Wrth gofio am ddiwygiadau hanesyddol, ac ymgyrchoedd mwy diweddar fel ymweliadau gan Billy Graham a Louis Palau yn llenwi neuaddau a stadiymau pêl-droed yn eu cyfnod, gwelwyd rhai yn cael tröedigaethau a thrwy hynny yn ymrwymo i ddilyn Iesu ac ymaelodi mewn eglwys. Ond wrth edrych ar ffigyrau aelodaeth eglwysig Cymru dros y 40 mlynedd diwethaf, tystio maent i leihad sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu mannau addoli. Gwelwyd cyfnod o drai ar y ffydd yng Nghymru ac adeiladau crefyddol yn cael eu cau a'u gwerthu. Clywn yn aml yn y cyfryngau am gapeli ac eglwysi wedi eu difrodi, cynulleidfaoedd yn edwino, a phobl yn ymwrthod â ffydd yn gyfan gwbl. Dyma'r heriau rydym wedi bod yn ceisio ymdopi â nhw ers amser maith bellach!

Ers degawdau, y dybiaeth gyffredinol yw bod Cristnogaeth yng Nghymru a Lloegr, ac yn benodol y niferoedd sy'n mynychu eglwysi, mewn dirywiad difrifol. Ers yr 1960au y gred oedd bod seciwlareiddio yn anochel ac anffyddiaeth newydd y 2000au ar gynnydd. Mae canlyniadau cyfrifiad 2021 yn dangos cwymp amlwg yn y nifer sy'n arddel hunaniaeth Gristnogol, gan awgrymu bod Cristnogaeth, yn enwedig fel ffydd weithredol, ar y ffordd allan. Fodd bynnag, bu nifer o straeon a mwy o dystiolaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn adrodd stori wahanol. Mae'r stori hon yn un o newid yn yr hinsawdd ysbrydol, ac am bobl ifanc yn arbennig erbyn hyn yn awyddus i archwilio ffydd, gyda llai o elyniaeth at grefydd o fewn y gymdeithas.

Dywed yr adroddiad: 'Mewn eglwysi ledled y wlad mae rhywbeth rhyfeddol yn digwydd, sy'n herio'r rhagolygon hirsefydlog am ddyfodol Cristnogaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Y naratif cyfarwydd yw gweld cynulleidfaoedd yn heneiddio a gostyngiad cyson yn nifer yr addolwyr, ond dros y ddegawd ddiwethaf rydym wedi gweld twf dramatig, sy'n cael ei arwain gan bobl ifanc. Y tu mewn a'r tu allan i'r Eglwys, mae pobl ifanc yn fwy ysbrydol eu hanian erbyn hyn, gyda darllen y Beibl a chredu yn Nuw ar gynnydd. Ond gwelwn hefyd fod perthyn i eglwys yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd y bobl sy'n mynychu, gyda chynnydd mewn llesiant cyffredinol ac iechyd meddwl. Mae addolwyr hefyd yn ôl yr ymchwil yn fwy tebygol o fod yn weithredol yn eu cymunedau, gan deimlo cysylltiad â'u hardal leol a helpu gyda gweithgareddau cymdeithasol. Dyma'r Adferiad Tawel, y Diwygiad Distaw sydd i'w weld ar hyd a lled Cymru a Lloegr'.

Yn gynharach eleni, ar Fawrth 1af, ar faes y Sioe Fawr yn Llanelwedd, daeth dros 1,000 o bobl ynghyd o dan faner 100 i Gymru – mudiad sydd am weld plannu 100 o gynulleidfaoedd/eglwysi newydd yng Nghymru dros y ddegawd nesaf. Yr hyn oedd yn drawiadol o fod yn y diwrnod hwn o weddi oedd gweld mai pobl ifanc oedd mwyafrif y bobl yno – pob un â'i weledigaeth a gobaith o weld y freuddwyd yn cael ei gwireddu. Eto, y pwyslais gan 100 i Gymru yw nid trefnu digwyddiadau cenhadol mawr, ond plannu cynulleidfaoedd newydd o fewn ein cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Yn ei cholofn fisol yn Cenn@d yn ddiweddar, dywedodd Rosa Hunt fel hyn: 'Hwre! Newyddion da o'r diwedd! Yn ôl adroddiad newydd gan Gymdeithas y Beibl, mae bod yn Gristion wedi dod yn 'cŵl' unwaith eto! Yn 2018, dim ond 8% o boblogaeth Lloegr a Chymru oedd yn mynd i gapel neu eglwys yn rheolaidd. Yn 2024, roedd y ffigwr hwn wedi codi i 12%: cynnydd o 50%! Pan rydyn ni'n edrych ar yr ystadegau ar gyfer pobl ifanc, mae pethau hyd yn oed yn well. Dim ond 4% o ddynion a merched 18-24 oed oedd yn mynychu o leiaf unwaith y mis yn 2018. 16% yw'r ffigwr erbyn hyn – cynnydd o 300%! Ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ddynion ifanc – y grŵp oedd



Cristion GORFFENNAF 2025.indd 8 08/06/2025 11:16:40

bron yn absennol yn ddiweddar'. Dywedodd awduron yr adroddiad, "Mae cael ffydd Gristnogol yn cael ei normaleiddio unwaith eto, a gellir dadlau ei bod hyd yn oed yn ddeniadol yn ddiwylliannol".'

Mae Rosa yn ein herio i ystyried rôl ein capeli a'n heglwysi ni yn y diwygiad distaw hwn, gan ofyn i ni drafod y cwestiynau isod:

**1. A ydy ein heglwysi ni'n llefydd ble mae pobl yn teimlo'n gyffyrddus i ofyn cwestiynau?**

**2. Ydyn ni fel eglwysi yn barod i fuddsoddi yn ein harweinwyr a'n gweinidogion er mwyn sicrhau eu bod nhw wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i ddelio â phroblemau dyfnaf bywyd a marwolaeth?**

**3. 'Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd,' meddai Iesu. Ydy ein cariad at ein gilydd yn amlwg i bawb?**

**4. Sut y gallwn ni fynd ati i adeiladu cymuned go iawn o bobl sy'n caru ei gilydd a gofalu am ei gilydd?**

**5. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu pwysigrwydd cyfiawnder cymdeithasol i bobl ifanc. Mae pobl ifanc eisiau gwella eu cymdeithas nhw, ac yn fodlon rhoi o'u hamser, eu sgiliau a'u hegni i wneud gwahaniaeth. Maen nhw eisiau bod yn rhan o gymunedau sy'n gwneud gwahaniaeth, sy'n codi llais am anghyfiawnder. Maen nhw'n darllen y bregeth ar y mynydd ac eisiau bod yn rhan o gymuned sy'n cymryd gorchmynion Iesu i garu Duw, byd, cymydog a ni ein hunain o ddifrif. Dylai'r eglwys fod yn un o'r prif leisiau sy'n herio gwleidyddion ac arweinwyr diwylliannol eraill am gyfiawnder. Ydy hi?**

**6. Beth ydyn ni'n ei wneud fel eglwysi a chapeli am bynciau llosg fel: cynhesu byd-eang; ffoaduriaid; tlodi; rhyfel ...?**

Beth am i ni drafod y pwyntiau pwysig hyn fel eglwysi, gan ystyried sut fedrwn ni fod yn gymunedau ffydd sy'n croesawu pobl atom gyda'u cwestiynau a'u hamheuon, gan roi lle i drafod deallus a gonest. Ac mewn oes lle nad yw pobl efallai yn gweld capel neu eglwys fel lle agored a chroesawgar, sut fedrwn ni fod yn bresenoldeb gweledol yn ein cymunedau?

Wrth groesawu'r adroddiad, meddai Sian Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, 'Dylai'r adroddiad Diwygiad Distaw fod yn anogaeth fawr i Gristnogion yn Lloegr, Cymru a thu hwnt. Mae'r Eglwys yn fyw ac yn tyfu, ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i unigolion a chymdeithas. Mae'r ystadegau ynglŷn ag oedolion ifanc a dynion yn dangos diddordeb mewn Cristnogaeth yn galonogol iawn, ynghyd â'r data sy'n dangos faint o bobl sy'n darllen y Beibl tu allan i oedfa ar y Sul. Dydy'r Arglwydd ddim wedi gorffen gyda Chymru, a dydy Cymru ddim wedi gorffen gyda ffydd'.

Dros y mis nesaf fe fydd Cytûn yn sicrhau presenoldeb Cristnogol mewn gofod cyhoeddus – yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ac ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Dyma gyfle i alw mewn am banad a sgwrs, codi cwestiwn a cheisio atebion. Mae croeso i bobl o bob ffydd a dim ffydd alw i mewn – bydd croeso a sgwrs ar gael i bawb yn ddi-wahân. Yn yr un ffordd fe fydd caplaniaid ar faes y Sioe yn barod i wrando ac ateb unrhyw ymholiadau, heb bregethu na gwthio ffydd ar neb, ond yn hytrach yn cyfarfod pawb lle maen nhw ar hyn o bryd. Mae'n dystiolaeth bwysig, a disgwyliwn ymlaen am sgyrsiau adeiladol wrth gyfarfod croestoriad difyr o bobl i'r digwyddiadau hyn.

**Tybed pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn eich ardal chi lle byddai cyfle i'r eglwys fod yno – ar y stryd – yn barod i drafod a rhannu'ch stori, gan ddod â realiti'r diwygiad distaw i'ch ardal chi?**






Cristion GORFFENNAF 2025.indd 9 08/06/2025 11:16:40